

Darparu ar y Cyd
Rhannu Egwyddorion - Rhannu
Blaenoriaethau

Cytundeb Partneriaeth rhwng
Y Trydydd Sector

a

Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2020-2023



Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno, ar ran Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ein pumed Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector, sy'n ffordd o gydweithio i cydgrynhoi ein perthynas er budd dinasyddion a chymunedau Conwy.

Rydym eisoes wedi cydweithio, ac rydym wedi ymrwymo i barhau i gryfhau ein perthynas. Rydym wedi adolygu ein egwyddorion ar y cyd, ac wedi datblygu cydflaenoriaethau newydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y 3 mlynedd nesaf.

Bydd y cytundeb hwn a'i weithrediad yn ein helpu i barhau i gefnogi a deall ein gilydd, fel ein bod yn gallu ymateb yn well i'r heriau o'n blaenau, o wybod ein bod yn parhau i fod â phwysau cynyddol ar ein nawdd. Mae'n bwysicach nac erioed felly ein bod yn cydweithio i wneud ein gorau dros ein cymunedau, budd-ddeiliaid a phartneriaid.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio i arwain a dylanwadu'r newid sydd ei angen drwy ddull cydweithrediadol.

Iwan Davies, Prif Weithredwr - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

ac

Wendy Jones, Prif Weithredwr - Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy

Cynnwys

	Tud.
1. Cyflwyniad a sut mae popeth yn ffitio gyda'i gilydd	4
2. Yr 8 egwyddor a rannwn	5
3. Ein 6 blaenoriaeth ar y cyd	6
4. Darparu'r cytundeb partneriaeth	7
5. Sut i gymryd rhan, cael rhagor o wybodaeth a rhannu ymarfer da	7
6. Adolygiad o Gytundeb y Trydydd Sector	8

Atodiadau

Atodiad 1 – Partneriaeth y Trydydd Sector a sut mae'n cysylltu'n lleol ac yn rhanbarthol



Appendix 1
CYM.docx

Atodiad 2 – Termau allweddol a dolenni



Appendix 2
CYM.docx

Atodiad 3 – Beth fyddwn yn ei wneud a pha mor aml



Appendix 3
CYM.docx

1. Cyflwyniad a sut mae popeth yn ffitio gyda'i gilydd

Rydym wedi cydweithio i ddatblygu ein gweledigaeth ar y cyd:

“Cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy y mae pobl Conwy ei hangen yn ogystal â grymuso cymunedau i fodloni eu hanghenion eu hunain a gwella lles.”

Mae'r newid sydd ei angen i ddarparu hyn yn golygu ei fod yn hanfodol ein bod yn cydweithio er budd ein cymunedau. Bydd hyn yn effeithio ar ystod eang o feysydd gwaith, gan gynnwys lles, atal a gofal, yr amgylchedd, sgiliau, adfywio cymunedol, datblygu economaidd a datblygiad mentrau cymdeithasol a modelau darpariaeth gwasanaethau.

Mae'n bwysig bod y cytundeb hwn ar waith mae partneriaid yn ei ddarparu yn cael ei wneud ar y cyd.

Yn strategol, mae cyswllt rhwng Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) a gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych; bydd y cytundeb hwn yn ychwanegu gwerth, ac yn cefnogi'r BGC, gan geisio peidio dyblygu unrhyw waith presennol sy'n cael ei wneud yn lleol neu'n rhanbarthol. Mae'r cytundeb hwn yn cefnogi gweithrediad Blaenoriaethau CVSC a Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol CBS Conwy.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cytundeb yn adlewyrchu gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a hyrwyddiad gwasanaethau gofal a chefnogaeth sy'n cael eu darparu gan fentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau trydydd parti, gyda'r nod o ehangu'r ystod o fodolau gwasanaeth dielw yn y sector gofal cymdeithasol, a chynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth.

Mae Fforwm Gwerth Cymdeithasol Conwy wedi cael ei integreiddio i Bartneriaeth y Trydydd Sector; cafodd hyn ei ddatblygu gan ddefnyddio [“Canllaw ymarfer da ar Fforymau Gwerth Cymdeithasol”](#) Canolfan Cydweithredol Cymru. Bydd Partneriaeth y Trydydd Sector felly'n cysylltu â'r Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol drwy Awdurdod Lleol a enwebwyd, Swyddogion Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy a darparwyd Trydydd Sector eraill.

Mae'n hanfodol cael Trydydd Sector cynaliadwy yng Nghonwy, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae nawdd yn cyfrannu at y cynaliadwyedd hwn ac mae dull CBS Conwy o noddi'r Trydydd Sector yn chwarae rôl allweddol yn hyn, o'r egwyddorion y defnyddir, i sut mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu. Mae [Egwyddorion Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector](#) wedi cael eu noddi gan CVSC a CBS Conwy i nodi ffordd glir o weithio.

Mae angen clywed llais y Trydydd Sector a CBS Conwy i nodi syniadau a ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei bodloni.

Os yw ymgysylltiad yn cael ei gynnal, yna rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r [10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#), sy'n hyrwyddo arferion da wrth ymgysylltu. Byddwn yn cyhoeddi pob digwyddiadau ymgynghori perthnasol.

Mae'r egwyddorion a'r blaenoriaethau yn y cytundeb hwn wedi cael eu datblygu ar y cyd, a byddant yn cael eu darparu ar y cyd, a'u rhwymo gan gyd-lywodraethu.

Rheolir y cytundeb hwn gan Bartneriaeth y Trydydd Sector. Gellir dod o hyd i sut mae'r bartneriaeth hon yn gysylltiedig â strwythurau sefydliadau lleol a rhanbarthol, yn ogystal â strwythurau partneriaeth yn:

Atodiad 1 – Partneriaeth y Trydydd Sector a sut mae'n cysylltu'n lleol ac yn rhanbarthol

Gellir dod o hyd i rai o'r termau a ddefnyddir yn y cytundeb hwn a beth a olygir ganddynt, a'u cyswllt i'r dogfennau allweddol yn: **Atodiad 2 – Termau allweddol a dolenni.**

2. Yr 8 Egwyddor a Rannwn

Mae'r egwyddorion canlynol wedi cael eu nodi i symud y berthynas ymlaen rhwng y Trydydd Sector a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a ddewiswyd yn seiliedig ar yr heriau a nodwyd ar draws bob Partner:

- 1. Partneriaeth**

Mae perthynas gadarn, ymddiriedus rhwng y Partneriaid yn hanfodol i gyflawni ein hymrwymiaadau a rennir a darparu'r gwasanaethu er bydd y gymuned. Mae gan bob partner rolau cyflenwol a phendant.
- 2. Annibyniaeth**

Cydnabyddir bod y Trydydd Sector yn annibynnol.
- 3. Amrywiaeth a pharch at y naill a'r llall**

Dylid parchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaeth, yr amrywiaeth a'r capasiti rhwng y partneriaid.
- 4. Atebolrwydd**

Dylai pob partner gael eu set eu hunain o gyfrifoldebau a chyfyngiadau ond maent wedi ymrwmo i weithredu'n dryloyw, gydag uniondeb a gwrthrychedd.
- 5. Cydraddoldeb**


Mae pwysigrwydd hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb yn cael ei gydnabod a dylid rhoi ystyriaeth a pharch cyfartal i bob partner.
- 6. Perthnasau Da ac Ymgysylltiad â'r Sector Ehangach**

Mae perthnasau da sy'n cynnwys cyfathrebu agored a gonest yn hollbwysig, yn ogystal ag ymgysylltu'n ehangach nag erioed.
- 7. Cydgynhyrchiad**

Byddwn yn cydweithio i hyrwyddo defnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau i wasanaethau cyhoeddus, sy'n galluogi'r bobl sy'n darparu a derbyn gwasanaethau i rannu pŵer a chyfrifoldeb, ac i weithio gyda'i gilydd mewn perthynas cyfartal, dwyochrog a gofalus.
- 8. Her**

Caiff ei dderbyn bod gan bartneriaid yr hawl i herio prosesau a'r materion sy'n eu heffeithio. Mae angen i bob partner fod yn agored i her a newid.

3. Ein 6 Blaenoriaeth ar y Cyd – wedi’u datblygu ar y cyd



<p>Datrys Problemau ar y Cyd</p>	<p>Nodi a chydweithio i ganfod datrysiad i faterion sy'n berthnasol i'n cymunedau.</p> <p>Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu dull cynhwysu o wella gwella i gynnwys pob budd-ddeiliaid perthnasol i'n galluogi i wneud hyn.</p>
<p>Modelau Darpariaeth Newydd</p>	<p>Mae angen i ni gydweithio i ddatblygu modelau newydd o ddarpariaeth sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo gwasanaethau gofal a chefnogaeth, sy'n cael eu darparu gan fentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, sefydliadau sy'n cael eu harwain gan y defnyddiwr a sefydliadau'r trydydd sector.</p>
<p>Cyllid</p>	<p>Gwneud y mwyaf o beth sydd ar gael a gweithio gyda Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.</p>

	Bydd CBS Conwy yn atebol drostynt eu hunain wrth fodloni'r Cod Ymarfer a byddant yn defnyddio'r Cod hwn fel meincnod i wella arferion.
Comisiynu	Bydd y Trydydd Sector yn cael eu cynnwys yn y Gylchred Gomisiynu (sy'n cael ei defnyddio i benderfynu pa nwyddau neu wasanaethau sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir i bobl) a sut rydym yn caffael gwasanaethau, monitro a gwerthuso.
Gwerth Cymdeithasol	Datblygu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol. Mewn nod Gwerth Cymdeithasol i'r gwaith mae partneriaid yn ei wneud, gan gynnwys rhannu arferion da.
Cynllunio Cymunedol Lleol	Cydweithio i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein cymunedau, a gweithio gyda nhw i sicrhau effeithiau cymdeithasol cadarnhaol.

4. Darparu Cytundeb Partneriaeth

a. Mae ein dull darparu yn seiliedig ar:

- **Ddylanwadu a darparu – sylwadau ac ymgynghoriad** – mae'n rhaid cael y strwythurau a'r gefnogaeth iawn i alluogi unigolion a sefydliadau i gael eu clywed ac i wneud unrhyw newidiadau a nodwyd.
- **Perthynas** – cynnal y berthynas dda rhwng CVSV a CBS Conwy, gyda chefnogaeth gan SC CVSC a Phrif Swyddog Gweithredol CBSC a'r sector ehangach.
- **Atebolrwydd** – mae angen i'r hyn rydym yn ei wneud, wneud gwahaniaeth, ac mae'n rhaid i ni ddangos effaith ein gwaith.

Gweler Atodiad 3 – Beth fyddwn yn ei wneud a pha mor aml.

b. Partneriaeth y Trydydd Sector

- Mae Partneriaeth y Trydydd Sector yn gyfrifol am weithrediad y blaenoriaethau hyn.
- Bydd Partneriaeth y Trydydd Sector yn cyfarfod bob tri mis i drafod darparu'r blaenoriaethau.
- Caiff y cynnydd ei adrodd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a Bwrdd Ymddiriedolwyr CVSC yn flynyddol.

Datrys anghytundeb

Efallai bydd anghytundeb o bryd i'w gilydd; datrysych y rhain ar lefel Swyddog yn gyntaf, ac yna, os nad oes datrysiad, uwchgyfeiriwch yr anghydfod i SC Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy neu Arweinydd Trydydd Sector yr ALL, a fydd yn cefnogi gyda datrysiad. Os nad ellir dod i ddatrysiad, gellir uchgyfeirio'r mater i Bartneriaeth y Trydydd Sector fel y gellir trafod y materion, ac i'r bartneriaeth gytuno gyda nod o ddatrysiad.

5. Sut i gymryd rhan, cael rhagor o wybodaeth a rhannu ymarfer da

Os hoffech chi gymryd rhan a chael eich cynnwys yn y Cytundeb Partneriaeth hwn, eisiau rhannu eich arferion da neu eisiau rhagor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at: Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy ar mail:cvsc.org.uk neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar sc.commissioning@conwy.gov.uk

6. Adolygiad o Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector

Bydd Pwyllgor Partneriaeth y Trydydd Sector yn adolygu'r Cytundeb Partneriaeth yn ffurfiol bob 3 blynedd neu gynt, os oes newidiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cytundeb.